

## **Cyngor Cymuned Llanelian (307)**

Cofnodion cyfarfod Ionawr 15, 2019 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Glenys Jones, David Gerrard, Cyng. Aled Jones

**Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Cyng. Richard Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

**Yn absennol:** Cyng. Richard Griffiths

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Cyn cychwyn y cyfarfod, cadarnhawyd bod yr aelodau yn hapus bod y cyfarfod wedi ei alw'n gywir a bod cworwm yn bresennol.

### **2 Datgan Diddordeb**

Dim

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Thomas Jones.

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

- 4.1** Caniatad Arbennig – cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a'r pwyllgor safonau i gadarnhau a fyddai angen caniatad arbennig ar yr aelodau i drafod dyfodol addysg yr ardal. Dosbarthwyd y ffurflenni perthnasol i'r aelodau hynnu oedd am wneud cais o'r fath. CT
- 4.2** Materion Priffyrdd – cadarnhawyd bod y garafan wedi ei symud o Bengorffwysfa erbyn hyn. Cafwyd wybod bod y sbwriel ger Cae Dwr hyd Bryn Mor yn cael ei fonitro. Mae gwaith i drin y tyllau a'r cyrb ar y gweill. Nid oes diweddariad am y draen ger Dinorben Terrace. Cafwyd wybod bod Alun Roberts, swyddog priffyrdd ar gael i gwrdd a'r aelodau, a cytuno byddai cyfarfod am 3-3.30 yn Neuadd y Bentref yn fuddiol. Mae hefyd angen i'r deilydd portfolio Cyng Bob Parry a chynghorwyr sirol Twrcelyn fod yn bresennol. Y clerc i gysylltu eto ag Alun Roberts i wneud trefniadau pellach. Nodwyd bod y fan ger Marie Curry wedi ei barcio yno heb MOT nac wedi ei dacsio. Aled Jones i wneud ymholiadau. CT AMJ
- 4.3** Materion Tramwy – cadarnhaodd y clerc ei bod wedi darllen y cofnodion sydd ganddi o'r cyfnod dan sylw ac nad oedd cyfeirio at lwybrau na giatiau/camfeydd newydd.
- Nid yw'r gamdda tuag ag Porth Gwichiad wedi ei drwsio hyd yma. Cytuno cysylltu a CSYM i gadarnhau os oes ymateb gan Stad Llys Dulas erbyn hyn gan mae eu cyfrifoldeb hwy ydi ei drin neu gosod giat newydd. CT
- 4.4** Blwch Post – cafwyd wybod bod y blwch post wedi ei rwystro, ac nid oedd unrhwyn yn gwybod pwy oedd yn gyfrifol am wneud hynnu. Cadarnhawyd bod cais wedi ei gyflwyno i'r Post Brenhinol am flwch post newydd ger y siop.
- 4.5** Darpariaeth Addysg – nid oedd diweddariad ers y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod grwp o lywodraethwyr yr ysgolion cynradd a chynghorwyr wedi bod yn cwrdd i drafod, a bod Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr CSYM wedi gwrthod cyfarfod a'r cynrychiolwyr hynnu. Pwylseisiodd Aled Jones ei fod wedi ei ethol i gynrychioli'r gymuned ac mai dyna oedd ei fwriad.

- 4.6** Coeden Nadolig – diolchwyd i bawb oedd ynghlwm a'r goeden. Nodwyd nad oedd anfoneb wedi ei dderbyn gan Anglesey Mowers hyd yma. Cytuno byddai David Gerrard yn mynd a'r goeden yn ol er mwyn ei ailgylchu. DG

## **11** **Wylfa Newydd**

Ymddiheurodd Aled Jones fod rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar, ac roedd am i'r Cyngor wybod bod disgwyl datganiad gan Hitachi bore dydd lau fan hwyraf ynglyn a dyfodol prosiect Wylfa Newydd. Mae disgwyl bydd y prosiect yn cael ei atal dros dro. Nodwyd bod Horizon (Hitachi) yn cyflogi nifer fawr o bobl lleol yn barod a bod peth buddsoddiad eisioes yng Ngholeg Menai.

Diolchodd Aled Jones i Dafydd Griffiths a Roger Dobson (Cyngor Llanbadrig) am eu gwaith ar ran Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ac am gynrychioli'r ardal ynghyd ag arbennigwr yn y gwrandawiadau diweddar oedd yn ffurfio rhan o'r broses cynllunio DCO. Tybiwyd bydd y broses DCO yn cael ei gwblhau gan Hitachi/Horizon.

Bu i Aled Jones adael y cyfarfod.

Cafwyd grynodedb gan Dafydd Griffiths o'r gwrandawiadau a gynhaliwyd ym Mae Trearddur fel rhan o'r broses cynllunio. Nodwyd bod trafodaethau ar lety gweithwyr, effaith ar yr iaith, effaith ar ymwelwyr, swyddi a chyflogaeth, traffig a pharcio a hefyd pwysau ar wasanaethau iechyd. Cafwyd wybod na fyddai'r feddygfa ar y safle yn weithredol am bedair mlynedd. Cytuno cysylltu a'r bwrdd lechyd i godi ymwybyddiaeth a nodi pryderon yr aelodau gan ofyn am eglurhad o'u dealltwriaeth hwythau o'r sefyllfa. CT

## **5** **Adroddiadau Pwyllgorau**

### **5.1** **Caeau Chwarae**

Cafwyd wybod bod cais am arian tuag at meinciau newydd yn symud yn ei flaen. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

### **5.2** **Llithrfa**

Mae disgwyl anfoneb gan CSYM am eu rhan nhw o'r cynllun yn ol y gytundeb. Gan nad oes posib cael y faner gwobr glan mor 2019 (nid yw CSYM wedi monitro'r bae fel oedd angen), cytuno gosod baner Cymru ar y polyn am y tymor nesaf. Y clerc i gadarnhau. CT

### **5.3** **Mynwent**

Cadarnhawyd bod cynlluniau'r giat wedi eu hafnon ymlaen at y swyddog cadwraeth yn yr ardan gynllunio. Cadarnhaodd Thomas Jones ei fod wedi cwblhau peth gwaith yn y fynwent. Nodwyd hefyd bod John Griffiths wedi bod yn trin a thwtio yn y fynwent hefyd.

Nodwyd bod pentwr o lechi wedi eu gadael ar un ochr yn y fynwent ers rhai blynyddoedd bellach. Cytuno gellid eu defnyddio o fewn y fynwent fel yr angen. Pawb yn cefnogi.

### **5.4** **Cyllid a Pholisi**

I'w drafod ymhellach yn eitem 8 – Cyllideb a Preiseb 2019/20

### **5.5** **Pwyllgorau Allannol**

- 5.5.1** Llywodraethwyr Ysgol Gynradd – cadarnhaodd Glenys Jones bod Mr David Hughes wedi ei benodi yn bennaeth yr ysgol. Nodwyd bod y disgyblion yn ei hoffi fel athro a bod y teimlad o fewn yr ysgol wedi newid am y gorau.

## **6 Cynllunio**

- 6.1 Ceisiadau** – Roedd dau gais i'w ystyried
- Stad Dublin (VAR/2018/11) – cefnogi
  - Tyddyn Mawr (hwp/2018/18) – dim gwrthwynebiad

CT

- 6.2 Penderfyniadau** – Ni chafwyd wybod am benderfyniadau CSYM.

## **7 Materion Ariannol**

### **7.1 Taliadau**

Cymeradwywyd y taliadau canlynol –  
£25.50 Central Garage – Torchau Beddi TMI  
£263.80 Viking Direct - adnoddau gweinyddol a chabinet  
£246.93 Carli Evans Thau – Costau Hydref – Rhagfyr  
£286.07 Carli Evans Thau – Cyflog Rhagfyr  
£156.00 CSYM – Haner Cost Gwobr Glan Mor.

Nodwyd na fyddai baner gwobr glan mor bellach ac felly mae disgwyl ad-daliad gan CSYM.

- 7.2 Ceisiadau am Arian**  
Ni fu ceisiadau i'w ystyried.

- 7.3 Adroddiad Chwarterol**  
Dosbarthwyd copi o'r adroddiad i rheini oedd yn bresennol er gwybodaeth.  
Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith i'w baratoi.

## **8 Cyllideb a Preiseb 2019/20**

Dosbarthwyd copi o'r daenlen ynglyd a nodiadau o gyfarfod y pwyllgor cyllid. Trafodwyd ac esboniwyd y prif newidiadau yn y gyllideb arfaethiedig ar gyfer 2019/20.

Nodwyd bod peth arian wedi ei glustnodi ar gyfer hyfforddiant aelodau a'r clerc. Cytuno cynyddu'r swm yma i £600 gan ddefnyddio arian wrth gefn os bydd angen. Gofynnwyd i'r clerc edrych ar gymhwysterau proffesiynol yn ogystal a sesiynnau hyfforddi Un Llais Cymru wrth gydnabod bod rol y clerc yn datblygu a bod angen cynnig cefnogaeth ble'n bosib.

CT

Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal sesiwn hyfforddi yn y Neuadd Bentref ar ofynnion y cod ymddygiad ar y cyd gyda chynghorau eraill cyfagos gan rannu'r gost. Y clerc i wneud ymholiadau.

CT

**Cytuno yn unfrydol mai £21,824.95 fydd cyllideb y cyngor am y flwyddyn ariannol nesaf.**

Cynnigwyd bod y priseb yn cynyddu 2% i adlewyrchu'r cynydd yng ngwariant y Cyngor yn gyffredinol. Cytunai'r aelodau ei fod yn fwy teg cynyddu'r dreth yn raddol yn hytrach na chynydd sylweddol mewn amser.

**Cytuno yn unfrydol mai £12,763.36 fydd priseb y cyngor am y flwyddyn ariannol nesaf.**

CT

Bancio ar y We – yng nghyfarfod y pwyllgor cyllid, trafodwyd y posibilrwydd o fancio ar y we er mwyn hwyluso gwaith y clerc i fonitro taliadau a gwariant. Byddai angen

adolygu'r rheoliadau ariannol i adlewyrchu a chynnwys bancio ar y we. Nid oedd gwrthwynebiad. CT

Trafodwyd hefyd cyfrifon banc y cyngor a'r arian, gan gynnwys arian cronfa Ty Moel Isaf – mae angen adolygu cyfrifon y cyngor a'r rheini sydd yn arwyddo sieciau, ac agor cyfrifon newydd, annibynnol ar gyfer y gronfa cyn gynted a phosib.

## **9 Cronfa Tŷ Moel Isaf**

Trafodwyd sut byddai rheoli'r gronfa. Cytuno anfon copi o'r rhan perthnasol o ewyllys Mrs Morris a chyngor cyfreithiol NALC at yr aelodau cyn y cyfarfod nesaf er mwyn cael cyfle i'w darllen a'u dehongli. Cytuno bydd y cyngor yn penderfynnu a chadarnhau sut i symud ymlaen a rheoli a diogelu'r arian yn y cyfarfod nesaf. CT

Nodwyd byddai angen i gorff annibynnol megis ymddiriedolaeth gael yswiriant a chyfrifon banc ei hun.

## **10 Iechyd a Diogelwch**

Pryderon diogelwch ffordd yn parhau (gweler materion yn codi o'r cofnodion).

## **12 Gohebiaeth**

**12.1** Grwp Cynefin – daethpwyd a poster gan y mudiad yn hysbysebu tai Stad Dublin at sylw'r aelodau. Mae gofyn i unrhywun a diddordeb yn y tai gysylltu a hwy cyn gynted a phosib. Mae copi o'r poster ar facebook, yn y siop ac yn hysbysfwrdd y Cyngor.

## **13 Unrhyw Fater Arall**

**13.1** Plac Coffa Mrs Mair Morris – fe ofynnwyd os fyddai posib gosod carreg yn cydnabod cyfraniad Mrs Morris i'r ardal ar y Neuadd Bentref. Nododd y Cadeirydd bydd Pwyllgor y Neuadd yn trefnu gwneud hyn yn fuan. Bydd carreg hefyd yn cael ei osod ger porth y fynwent pan fydd gosod y giat newydd.

**13.2** Cyfarfod Un Llais Cymru – nododd Ian Evans nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod nesaf ac fe ofynnodd os oedd unrhyw un arall yn gallu cynrychioli'r cyngor. Nid oedd unrhyw aelod ar gael, y clerc i gysylltu ag ymddiheuriad. CT

## **14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Chwefror 12, 2019 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50

**Arwyddwyd  
Elfyn Hughes  
Cadeirydd**

CET01/2019